33. Arfordir de Gŵyr: Clawdd Sedger

Porth Eynon, Gŵyr

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 164 yr A.O., Gŵyr; Canolfan y safle: SS470844
Statws	Rhan o SoDdGA Arfordir De Gwyr sydd, yn ei dro, yn rhan o safle Natura 2000 Ewropeaidd, sef Clogwyni Môr Calchaidd AGA De Orllewin Cymru.
Daliadaeth	Cyflwynwyd rhydd-ddaliadaeth y warchodfa hon yn rhodd i'r Ymddiriedolaeth fis Ebrill 1966 gan y diweddar Mr C.P.M. Methuen-Campbell.
Maint	35.1 he (85.7 erw).
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	0.5 km i'r de o bentref Porth Eynon, ym mhen gorllewinol y traeth. Nid oes modd defnyddio cadeiriau olwyn ar y safle.
Cludiant cyhoeddus	Bysus rhifau 114, 115, 117, 118 a 119 o Orsaf Fysus Quadrant yn Abertawe i bentref Borth Eynon.

Disgrifiad: Blaendraeth creigiog, traeth a glaswelltir o dwyni tywod gweddillol. Mae Clawdd Sedger yn cyfrif am ran helaeth o ben mwyaf gorllewinol Bae Porth Eynon a dim ond ar lanwau isaf y flwyddyn y gellir gweld y warchodfa natur yn ei chyfanrwydd.

Yr unig ran o'r warchodfa sy'n uwch na'r marc penllanw yw stormdraeth bychan dan orchudd o dwyni tywod gweddillol, ble mae Carn Ebol y Môr (6-8), Tag yr Aradr (6-9) a Llysiau'r Famaeth (7-10) yn tyfu.

Mae gweddill y warchodfa natur wedi'i orchuddio'n aml iawn gan ddwr y môr, gan ddibynnu ar uchder y llanw yn y cylch rhwng y llanw uchel ac isel, ac mae'r creigiau calchfaen yn darparu cysgod ar gyfer yr amrywiaeth llawn o fywyd yr arfordir creigiog, yn cynnwys Cregyn Llong, Cregyn Gleision, Gwichiaid a Physgod Anemone, ynghyd â Gwymon Danheddog ac amrywiaeth o algâu coch, fel Gwymon Cwrel. Mae ymylon y safle cyfan yn goedwig o fôr-wiail ar ei bwynt isaf, ac mae hwn yn llawn Gwregysau.

Mae'r warchodfa'n gweithredu fel safle clwydo ar gyfer y Pibydd Du a'r Fulfran Werdd pan mae'n agos at benllanw yn ystod y gaeaf, a hefyd mae'r Morloi Llwyd yn dringo allan o'r dwr i'r fan yma.

Nodau Rheoli: Monitro'r safle am unrhyw ddigwyddiadau a all lygru'r môr. Amseroedd da i ymweld – Ar lanw isel, i weld yr anifeiliaid a'r planhigion isarforol.

sedgers bank 1 6/7/06, 10:42 am



Amseroedd da i yrnweld - Ar lanw isel, i weld yr anifeiliad a'r planhigion isarfor	
Ebrill - Mehefin	Blodau arfordirol yn ystod y gwanwyn
Mai - Gorffennaf	Adar yn magu ar y lan yn yr haf
Medi - Mawrth	Adar arfordirol mudol y gaeaf a Morloi Llwyd
Ar Lanw Isel	Bywyd yr arfordir creigiog